Cyfres Llanbedr | Medi, 1927 | Cyf. 27. Rhif 9.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd — Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Rhifyn Coffa

YR HYBARCH

Rees Cribin Jones

1841—1927.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Y Geiriadur Beiblaidd.

Gellir cael yr uchod yn awr wedi ei rwymo yn gyflawn mewn Dwy Gyfrol hardd. . . .

Dwy Gyfrol—Canvas Cloth, Gilt Lettered, £2/2/- y Set.
Dwy Gyfrol—Quarter Levant Morocco, Gilt Lettered, £2/10/- y Set.

I'w cael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

ARGRAFFWAITH.

Anfonwch eich archebion am ARGRAFFU o bob math i SWYDDFA'R "YMOFYNNYDD," LLANDYSSUL. Gwaith glan, destlus a chywir gyda'r dyfeisiadau peiriannol diweddaraf, ac am brisiau rhesymol. Sylw personol i bob ymholiad.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. MEDI, 1927. CYF. XXVII. RHIF 9.

Yr Hybarch Rees Cribin Jones.

(9 o FEDI 1841— AWST 11, 1927.)

Penybont ar Ogwr a'r Betws 1867—1868.
Cribin 1869—1876.
Caeronnen—1871—1915.
Tynrheol a Brondeifi 1874—1915.

DARLUNIWCH i chwi eich hunain ddyn gonest ond *blunt*, yn caru egwyddor hyd at roi sen i bawb a gerddai'r clawdd ffin, yn benderfynol, ie'n eithriadol felly, yn llawn teimlad caredig, o galon gynnes, a'i ffydd, ys dywedai'n, ansigledig yn y "*Future Life*," yn caru plant bach yn angherddol, yr olaf o'r hen Frigade—dyna Rees Cribin Jones.

Yr oedd ei fywyd yn bennod yn hanes Undodiaeth yn y Sir ac nid wyf yn sicr ychwaith ein bod ni bob amser yn sylweddoli mai Gwilym Marles, T.T., Evans, Maesymeillion, R.J.J., William James a John Dafis oedd y do gyntaf o bregethwyr Undodaidd heb fod yna yr un amheuaeth yn eu cylch. Arminiaid ac Ariaid oedd nifer mawr o'r rhai eraill, rhai'n Arminiaid ac Ariaid drwy gydol oes, eraill wedi gweld y golau. Tywysodd R. C. Jones at y golau o'r dechreu ac yr oedd yn fwy o Undodwr na nemor un o'i gyfoeswyr. Gwaith di-alw-am-dano yw ceisio ei leoli ymhlith ei frodyr. Gwell gennyf i geisio rhoi cip-olwg i chwi arno. Bum yn ei gwmni dro ar ol tro ac yn rhyw fath ar weinidog iddo am ddeuddeg mlynedd a chredaf fy mod yn ei adnabod drwodd a thro. Gwrandewais ef droion yn adrodd am helyntion bywyd ac yr oedd y digrif yn apelio ato. Cofiaf yn dda am ei esboniad o'r gair Cribin yn ei enw. Rees Jones plaen ydoedd yn mynd i'r coleg a rhyw ben tymor fe welodd ei enw fel R. C. Jones. Gwyddai mai'i gydefrydydd William James oedd wedi'i fedyddio yn R. C. Jones. Gwyddai

ragor. Gwyddai mai ystyr y C i James oedd Clotas am y gelwir Cribyn yn Gribyn Clotas. Ni ddywedodd ddim ond ysgrifennodd yntau'i enw'n llawn nid fel Rees Clotas Jones fel y mynnai William James ond fel Rees Cribin Jones. Hoffodd yntau'r enw ac fe safodd drwy gydol bywyd.

Lawer tro adroddodd wrthyf am yr adeg y bu o dan y cwmwl o golli Bertha—cannwyll ei lygad, am gymeriadau'r dyddiau gynt, am frwydr Gwilym Marles a'r damsang fu arno gan bobl heb fod yn deilwng i ddatod carrai ei esgid, am adeiladu Brondeifi, am *drend* Undodiaeth yn y Sir a phleser oedd ei weld fel henafgwr yn pleidio Cwmwrdu, Penrhiw, Panteg a Rhydyparc. Yr oedd yn genhadwr hyd ei fedd. Difyr oedd cael ymgom ag ef drannoeth i gyfarfodydd pregethu. Nid oedd hollti blew am dani. Yr oedd yn rhy onest i hynny ond nid oedd wenwyn ar ei saeth. Yr oedd ganddo weledigaeth gliriach na nemor o'i gyfoeswyr. Ni châr pobun onestrwydd *blunt* fel yr eiddo ef. Rywsut câr y mwyafrif ohonom *sugar-coating* ar y bilsen. Anaml y'i ceid ganddo ef, ond er ei fod felly'n dolurio ambell dro, gallasech fod yn berffaith sicr ei fod yn onest ac yn *sincere*, ac y mae dynion felly'n brin iawn heddyw.

Hyd y gwn i nid oedd arwyddion yn y nef pan y'i ganwyd. Gof oedd ei dad, a'i fam yn cadw'r felin i fynd ac yn y Felin Talgarreg ar y 9 o Fedi, 1841 y'i ganwyd. Mab y Rhandir oedd ei dad a merch Caerfoel oedd ei fam. Bu'i dad farw ac yntau ond 28 oed gan adael gweddw a phlant yn amddifad a Rees ond pedair blwydd oed. Hawdd canfod fod dylanwad ei fam yn drwm ar ei fywyd ac yr oedd yn foddlon aberthu popeth er ei mwyn. A hi'n glaf ac yntau'n weinidog Penybont-ar-Ogwr a Betws, taflodd ei waith i fyny a daeth adref at ei fam. Wedi marw o'i dad symudodd ei fam i fyw i'w hen ardal i Gwmpoeth ar dir Caerfoel a sicr fod y frwydr wedi bod yn *boeth* er codi'r teulu. Cawn ef yn bugeilio bob haf o naw i unarddeg oed gyda theulu'i fam yn Rhydyfydyr a chai ambell gwarter o ysgol y gaeaf. Yr oedd gwaeth i ddilyn. Bu am ddau aeaf ar fanc noeth Caerfoel yn bugeilio a sicr fod y profiad a gafodd yma wedi bod yn fendith iddo wrth fugeilio defaid mor gyrnig hwyrach a defaid banc Caerfoel. Bu yn Ysgol Dewi Hefin yng Nghribin a wedi hynny yn Ysgol John Jones Rhydygwin ac Ysgol John Davies, Three Horse Shoe a gedwid yn yr Eglwys Fach Cribin. Dyna'i hanes, hanes cyffredin llanc o fugail. Ar ddydd Nadolig 1859 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus ynghapel Cribin a llwyddodd i gipio hanner y wobr gyntaf am adrodd Cywydd y Fesen o waith Daniel Ddu. Nid wyf yn sicr ei fod ef na'r beirniad yn hollol foddlon ar y dyfarniad. Y tro cyntaf y cyfarfu y beirniad (T.T.) ag ef wedi hyn, dywedodd os oedd yn

teimlo awydd mynd i'r weinidogaeth y cai ddyfod i ysgol Pontsian. Ys dywedai ef ei hunan, " Yn fuan ar ol hyn, trwy rhyw gynlluniau gan rywrai heblaw mi fy hun, trefnwyd i mi fyned yn bregethwr ac yng ngwanwyn 1860 euthum i ysgol Pontsian."

Y mae Duw o hyd yn galw ei broffwydi o gorlannau'r defaid ac y mae'n rhy anodd dywedyd heddyw beth oedd cysylltiad adrodd " Cywydd y Fesen " a dylanwad ei fam hirben a throi meddwl y bugail ieuanc deunaw oed at fod yn " Weinidog da i Iesu Grist."

Yn haf 1860 yr oedd Cyrddau Blynyddol yng Nghaeronnen a Chribin Jones yn mynd iddynt yn ei *het silk* newydd ar awgrym y Parch. T. J. Griffiths (Tau Gimel) fel crwt o ysgol Pontsian ac yn ciniawa y waith gyntaf yn ei oes gyda'r gweinidogion yn y Felindre-uchaf, Pencarreg gyda Mr. a Mrs. Jonathan Davies. Ymhlith ei gydefrydwyr ym Mhontsian oedd John Davies, Tancoed, William James, Camnantfach—yr ysgolhaig goreu ohonynt i gyd, David Jones, Gwndwn (Yr Athro David Jones, Caerfyrddin), James Jones, Pendderw ger y Cei Newydd (ficer Llandebie), a'r didwyll, diddan a'r diniwed David Thomas, Frongau. Bu ym Mhontsian hyd Mehefin 1863 pan basiodd i Goleg Caerfyrddin.

Ni wn yn iawn pryd y dechreuodd bregethu ond gwn iddo ef fel ei gefnder R.J.J. os nad wyf yn cam gofio wneuthur hynny yn Rhydygwin. Yr oedd wedi dechreu cyn mynd i'r Coleg oherwydd ar y daith i'r Coleg y tro cyntaf ceir ef yn pregethu ar y ffordd neu allan o'r ffordd yng Nghapeli Penrhiw a Phanteg. Y daith bregethu gyntaf wedi mynd i'r Coleg oedd i Rydyparc a diddorol oedd ei glywed yn adrodd am gael ei hebrwng ar geffyl hyd Dafarndy'r Fox ar ei daith adref a cherdded 13 milltir wedi hynny.

Y mae'n brofedigaeth rhy gryf i mi beidio adrodd hanes un daith i Rydyparc am ddau reswm, am ei bod yn taflu golau ar ei gymeriad ac am iddo ei hadrodd wrthyf y tro olaf i mi ei weled cyn ei gaethiwo i'r gwely. Yr oedd Phillips Blaentrafle'n addo gwneuthur trefniadau er anfon ceffyl i gyfarfod a'r pregethwr i Dafarndy'r Fox ond heb wneuthur, ac ar un tro aeth Cribin Jones a William James i Heol Awst Caerfyrddin un prynhawn Sadwrn er gweld a oedd wedi gwneuthur y trefniadau gogyfer a drannoeth. O ddeall nad ydoedd, dywedodd R. C. Jones y drefn wrtho yn go blaen ac wedi iddynt ymadael, troes William James arno gan ei gyhuddo o fod yn draws wrth Mr Phillips. Ffromodd y ddau ac aeth R. C. Jones allan er cael llonydd. Yn yr orsaf cyfarfu a'r hen Broffesor Evans a cheisiodd Evans ganddo fynd i Landeilo yn ei le a gofyn i William James fynd i Rydyparc a St. Clears. Wedi

peth anfoddlonrwydd cydsyniodd ac nid heb deimlo y cai dalu'n ol i William James. Aeth James dan rwgnach. Nos drannoeth fe ddychwelodd ond wedi blino gormod i symud. "Wel," meddai R. C. Jones wrtho, "Os y dywedais i air trwsgl wrth Mr Phillips yn anfwriadol, pa un ohonom oedd yn reit?" ac ateb James oedd "Ti oedd yn reit a byddant heb bregethwr hyd dragwyddoldeb cyn yr af i atynt mwy."

Ni wn i a fu William James yn un a'i air ond gwn i Gribin Jones ei cherdded droion er pregethu i'r fintai fach oedd yno, a dengys yr hanesyn hunanaberth yr hen bregethwyr.

Treuliodd amser dedwydd yn y Coleg yn ffafryn gan yr Athro—Y Prifathro Hunter. Un dydd daeth Hunter ato yn llyfrgell y Coleg a dwy gyfrol drwchus yn ei law. Yr oedd eu heisiau ar Gribin Jones, ac meddai'r Athro (ond yn Saesneg) "Pa sawl pregeth a rowch i mi am y ddwy gyfrol yma?" gan feddwl pa sawl gwaith y pregethai yn ei le ym Mharcyfelfed. Gwelodd Cribin Jones drwyddo ac meddai'n wirion, "Cewch bob pregeth sydd gennyf ond cofiwch nid oes gennyf ond *dwy* a'r ddwy'n *Gymraeg*." Chwarddodd y Prifathro gan estyn y cyfrolau iddo. Sais oedd Hunter gyda llaw.

Yn Haf 1865 a 1866 bu yn gwasanaethu am ddeufis yn ystod y gwyliau yng Nghefncoed y Cymer ac yn niwedd gwyliau 1866 cafodd alwad oddiyno ond gwrthodod hi ar gyngor y Parch. R. J. Jones, Aberdar am nad oedd yn dyfod o'r Coleg cyn 1867.

Wedi gadael y Coleg cafodd alwad i Benybont-ar-Ogwr a Betws. Yr oedd y fynwent a'r capel wedi eu hesgeuluso a rhaid oedd i'r gweinidog ieuanc dalu am osod trefn ar y Capel a'r fynwent. Nid oedd y gynulleidfa'n fawr iawn, rhyw 15 yn mynychu Penybont am 11 a 6 a llai na hynny yn y Betws yn y prynhawn. Yr oedd Mr. Coffin (Aelod Seneddol) wedi addo £20 y flwyddyn at gyflog y gweinidog ond bu farw cyn rhoi un tal, a dyna a gafodd Mr. Jones am weinidogaethu yno yn ei eiriau ei hun, "Oherwydd marw o Mr. Coffin yr unig gyflog a ddaeth i'm rhan i tra gweinidogaethwn yma am ryw flwyddyn a phum mis oedd punt a gefais yn fenthyg gan un a fynychai'r capel ond a wrthodod ei derbyn yn ol."

Yr oedd gwaddol i gapel Penybont a'r Betws ond oherwydd esgeulusdod neu waeth ni ddaeth dimai ohonynt i'r gweinidog ieuanc ond fe geir cofnod yn y Lewin's Mead MSS. dan Ragfyr 1868 iddo gael grant oddiyno am *Bridgend*. Y mae'n naturiol gofyn ar beth oedd yn byw ond rhaid cofio ei fod yn cadw Ysgol

Nos yn Newton Nottage, chwe milltir o Benybont a thalai'r Ysgol Nos o leiaf bunt yr wythnos iddo. Oherwydd afiechyd ei fam aeth adref rhyw fis cyn Nadolig 1868 gan ffarwelio a Phenybont a'r Betws.

Ymhen tipyn agorodd ysgol ddydd yn yr hen ysgoldy yn ymyl Capel y Cribin a bu yno am flwyddyn neu ragor yn llwyddiannus ddigon. T. J. Griffiths oedd gweinidog y Cribin ond oherwydd nychdod digon tebig ei fod yn falch o'r cyfle i ymneillduo. Beth bynnag am hyn yn 1869 daeth gweinidog ieuanc Penybont yn Weinidog y Cribyn ac oherwydd afiechyd ei fam meddyliodd am agor ysgol yn Llanbedr a symud i fyw i Fyrtle Hill ond ym Medi 1870 bu'i fam farw ac yntau'n cadw Ysgol yn Llanbedr, pregethu'n aml iawn yng Nghaeronnen a bob nos Sul yn Nhy'nrhewl. Yn 1871 derbyniodd alwad i Gaeronnen a beth bynnag yw'r hanes am ymddiswyddo o'r Parch. David Evans, Maesymeillion a sicr fod yna stori y tu ol i'r ymddiswyddo ac y mae rhai pobl bob amser yn hoff o daro dyrnod yng nghefn gweinidog, eto ni chredaf fod gan y Parch. R. C. Jones un llaw yn y mater. Degau o weithiau yr aeth dros yr hanes ond ni ysgrifennir mohono ar hyn o dro. Dyma'i Sul yn ei eiriau ei hun. "Wedi i'r Parch. David Evans, B.A. roddi gweinidogaeth Caeronnen i fyny, amrywiwn y daith —drwy fyned bob yn ail Sul i Gaeronnen y bore, i'r Cribin y prynhawn, i Bontfanog ger Tyddyndu erbyn 6 ac yn ol i Lanbedr gael bod yn barod gogyfer a'r ysgol drannoeth."

Yr oedd cyflog gweinidog Caeronnen yr amser hwn rywfaint dan £20 y flwyddyn ac yr oedd yr achos yn flodeuog.

Bu'n cadw Ysgol tan 1879, yn gyntaf mewn ystafell y tu cefn i Ystrad House, yna lle mae siopau Croft ac Evans a Rickets heddyw, ac wedi hynny lle mae'r Glasfryn Stores ac yn olaf drws nesaf i Ogmore House, ei gartref, o 1877 hyd 1879 pan roes yr ysgol i fyny.

Yr ym yma wedi dod at ddechreu'r cyfnod pan mae hanes R. C. Jones yn hanes Brondeifi, a rhaid mynd yn ol er cael gafael ym mhen y llinyn.

Yn y Monthly Repository am 1811 fe geir hanes taith genhadol Mr. Lyons trwy Gymru,—

"Lampeter. I preached to a very crowded congregation,"

ac am a wn i dyma'r tro cyntaf i Undodiaeth gael ei phregethu yma. Yn y "Drysorfa Gynulleidfaol" am Fedi 1849 ceir hanes diddorol gan Dr. W. Davies, Ffrwdyfâl—

" Hanes a Rheolau y Gymdeithas Gristionogol
a sefydlwyd yn Cwmann, yn y flwyddyn 1818."

" Ymhlith aelodau mwyaf selog y gymdeithas hon, gellir enwi y Parch. A. Williams, Llanbedr ; D. Davies, Ysw., Llawfeddyg, Cwmann ; y Parch. J. Davies, Ffosyffin ; y Parch. J. Davies, Felindre-uchaf ; E. Davies, Ysw., Penybont a llawer o wŷr ieuainc dysgedig a llafurus o Ysgol Ramadegol Llanbedr ac amryw o dyddynwyr o'r gymdogaeth a feddai archwaeth at bynciau crefyddol."

Rhyw gymdeithas anenwadol ydoedd yn cynnal cyfarfodydd bob prynhawn Iau am bump o'r gloch ac nid oedd " barn nac opiniwn crefyddol neb i'w rwystro i fod yn aelod o'r gymdeithas hon." " Yr oedd pennod o'r Ysgrythyr Lân i gael ei darllen ar ddechreu'r cyfarfod * * * ac un neu ragor i weddio ar y dechreu ar ol darllen * * * ac i weddio eilwaith ar y diwedd, cyn ymadael."

O'r Gymdeithas anenwadol hon y tarddodd gwasanaethau hwyr Sul yng Nghwmann mor fore o leiaf a 1833. Cynhelid y gwasanaethau'n weddol reolaidd yn yr haf ond nid mor rheolaidd yn y gaeaf ac enwir y Parch. David Evans, B.A. ac yntau'n wr ieuanc newydd ddychwelyd o Glasgow fel un a wasanaethai'n arferol gan sefyll yn nrws agored bwthyn yng Nghwmann a'r gynulleidfa'n eistedd ar y cloddiau oddiamgylch (teste Mrs. Titus Evans, Caerfyrddin).

Ymhen amser bu farw'r gwasanaethau hyn ond yr oedd y marwor yn fyw. Rywbryd tua 1860—62, hwyrach flwyddyn neu ddwy yn gynt (1856—57 yn ol Teifiwyson), dechreuwyd cynnal Ysgol Sul yn ardal Ram, ysgol grwydr o dy i dy hyd nes cael gan Herbert Jones y Coedmor fwthyn bychan Ty'nrhewl fel man cyfarfod yn 1867 a phregethid yma hefyd ar hwyr Sul gan y Parchn. R. C. Jones a David Evans, B.A. Mynnir hefyd fod yma Ysgol Sul grwydr arall yn ardal Frowen a'r Castell ac fod hon hefyd yn un o ffrydiau afon Brondeifi.

Rywbryd yn 1874, (dywedir gan Teifiwyson ar y 27*ain o Fedi* ond yn ol Deio'r Hwper *yng ngwanwyn* 1874) cynhaliwyd Cwrdd Cymundeb yn Nhy'nrhewl a rhyw 40 o aelodau'n bresennol a'r Parch. R. C. Jones yn pregethu (er yr awgryma rhai y Parch. D. Evans, B.A.) a dyma ddechreu Brondeifi fel eglwys. Naturiol oedd i'r gynulleidfa fechan feddwl am adeilad eangach a mwy cyfleus a dyma'r hanes yn ol y Parch. R. C. Jones,—

" Yn fuan ar ol i mi ddod i aros i Lanbedr dechreuodd rhai pobl siarad am gael capel Undodaidd yn y lle ac fel ai'r amser ymlaen aent yn daerach o hyd, yn enwedig dau ohonynt, sef T. J. Hughes, Yswain, Castelldu a David Rees, Eurfaen Hall."

" Dyma eiriau Mr. Hughes, ' Paham yr wyt ti 'n peidio adeiladu Capel Undodaidd yn Llanbedr. Cerdd i mewn i gae Brongest a chymer y cae i gyd os wyt ti'n leico. Ni ddaw'r byd i'w le nes credu mewn un Duw a *twenty shillings in the pound.*"

Ateb Mr. Jones oedd y gwnae ei oreu ond i'r boneddwr addo tir a hanner can punt at ei godi. " Bachgen, Bachgen, yr wyt ti'n mofyn y box a'r pills, ond mi roddaf £40," oedd ateb y boneddwr hael. Bu farw Hughes cyn cyflawni'i addewid. Cafwyd y tir gan William Jones, Ysw., Llwynygroes, ond ni wyddai ef am yr addewid o £40 ac ni chafwyd mohonynt. Ar y llaw arall yr oedd David Rees, yntau yn canu byth a beunydd am gapel ac er gweld aeth Mr. Jones oddiamgylch er casglu addewidion. Ni chafodd ond addewidion am ryw £40. Ymhen rhyw ddiwrnod neu ddau aeth Mr. Jones eilwaith i Eurfaen Hall a Rees yn son am gapel.

" Son am gapel," meddai Mr. Jones, " pwy fedr godi capel ar addewidion o £40."

" Tut, tut " meddai David Rees, " Mi rof i ganpunt at ei godi."

" Dyna rywbeth yn awr," meddai Mr. Jones. Aeth y newydd fel tân gwyllt ac agorwyd capel Brondeifi yn ddiddyled yn 1876 ; ond oherwydd diffyg yn rhywle gorfu ei ail-adeiladu yn 1904 a chostiodd dros £2000 ac agorwyd ef yr ailwaith yn ddi-ddyled. Ni chefnodd R. C. Jones ar fywyd cyhoeddus. Bu'n aelod o Gyngor Lleol Llanbedr yn 1883—84, aelod o'r Bwrdd Ysgol o 1884 hyd 1904 gyda'r eithriad o ryw bedair blynedd ac aelod o Fwrdd y Gwarcheidwaid o 1895 hyd 1925. Llanwodd bob swydd yn ei enwad ac yr oedd yn Llywydd y Gymdeithas yn 1899. Yr oedd yn Ryddfrydwr i'r craidd a chadwodd ei Ryddfrydiaeth yn olau i'r diwedd. Pleidiodd achos dirwest a chai pob achos daionus ei help ef. Nid oes angen eu croniclo. " Dywed ei gynhaeaf gweithiwr fu."

Pregethodd fel *Student* yng Nghaeronnen ar y 25 o Fehefin 1865. Pregethodd am y tro olaf ar agoriad Capel Caeronnen wedi'i adnewyddu yn haf 1926 a rhagor na thrigain mlynedd rhyngddynt.

Ni fedraf i ei bwyso na'i fesur fel pregethwr am y rheswm syml na chlywais i mohono'n pregethu ragor na dwywaith yn fy oes—

unwaith Ynghapel y Bryn ar gylch rhyw bum mlynedd ar hugain yn ol a llynedd yng Nghaeronnen, ond gwn am dano.

Nid oedd yn llefarwr hyawdl. Ni ysgydwai dorf ond yr oedd gwreiddyn y mater ganddo, a synid fi pan ddeuthum yma ar ei ol o glywed canmoliaeth gyffredin i'w bregethu oherwydd fy mod rywsut wedi cael argraff mai pregethwr oer difywyd ydoedd. Wedi'i glywed y llynedd yng Nghaeronnen ac yntau'n 85 mlwydd oed, deellais.

Nid hyodledd gwyllt ysgubol mo'i bregethu ond difrifoldeb anghyffredin, dyn megis yn dwyn byd yr ysbryd yn agos. Cofiaf yn dda am dano yn adrodd hanes ei ymweliad a Gwilym Marles ar ei wely claf, ac yr oedd gan Wilym Marles feddwl ohono fel pregethwr, a dyma ddywedai Gwilym Marles y bore hwnnw—profiad R. C. Jones a phrofiad llawer un arall,—"Pan glywaf rywun yn pregethu'n wael y mae awydd pregethu arnaf. Pan glywaf rywun yn pregethu'n dda y mae'r awydd yn angherddol." Yr oedd R. C. Jones yn dyheu am bregethu hyd ei fedd.

Er llawer sen a gwawd cadwodd ei ffydd yn loew ac yn ei gwmni yr oedd byd arall yn agos. Cymeriad cadarn a phlaen ydoedd: gwr Duw mewn brethyn cartre.

Tra saif Brondeifi yn gofgolofn i'w ymdrech ddiflin a thra pery'r gynulleidfa i gerdded ar hyd y briffordd y'i harweiniodd ar hyd-ddi am gynifer o flynyddoedd, erys ei goffadwriaeth yn y dref ac yn yr ardaloedd yn wynfydedig, a bydd gyda ninnau enw arall ar y rhestr o deidiau a gwŷr Duw ac nid y lleiaf ohonynt yw enw'r gwr a gerfiwyd ddiweddaf arni—enw sefydlydd a gweinidog cyntaf Brondeifi—*Rees Cribin Jones.*

[Oherwydd amgylchiadau methwyd a chael '*block*' o'r Parch. R. C. Jones gyda'r rhifyn hwn. Gwn yr hoffai llawer ei gael, ac fe'i rhoir gyda'r rhifyn nesaf.—*Y Gol.*]

Y Parch. Rees Cribin Jones.

(ATGOFION HEN GYFAILL.)

YMAE hanner can mlynedd er pan ddechreuais ddod i adnabyddiaeth o'r Parch. Rees Cribin Jones. Hanner can mlynedd i'r llwyddyn bresennol cuthum fel breintwas i faelfa mewn pentref gwledig rhyw bedair milltir o Lanbedr. Yr adeg honno yr oedd yr ysbryd sectyddol wedi nythu'n ddwfn yn fy nghyfansoddiad. Dyna'r adeg o fywyd—dechreu'r adeg, o leiaf—pan gura'r ysbryd hwn wrth ddrws y galon am dderbyniad iddi gyda mwyaf o obaith am lwyddiant. Fel rheol, sectyddwr o'r pen i'r traed yw'r dyn ieuanc o tua phymtheg oed hyd tuag ugain neu bump ar hugain. Os medr y dyn ieuanc ddod allan yn fuddugoliaethus rhag syrthio o hono i'w grafangau yn ystod y tymor hwn, y tebygolrwydd yw na chaiff ei flino ganddo byth mwy. Ond ychydig yw nifer y dynion ieuainc a ddygir i fyny mewn awyrgylch grefyddol a fedr ddianc. Yn wir, ni wneir fawr o ymdrech, fel rheol, i'w gadw ymhell. Methu a wneuthum i, o leiaf; a phan euthum o'm cartref i gymdogaeth newydd yn yr hon na cheid un achos Undodaidd yn nes na Llanbedr, penderfynais y gwnawn gerdded yr holl ffordd er mynychu'r addoliad yno. Yn ffodus, daeth i'r un gymdogaeth deulu Undodaidd arall; ac ni chollwyd dim amser cyn dod o honom i adnabyddiaeth o'n gilydd. Ymron bob nos Sul, cychwynem tua phump o'r gloch, a'n hwynebau tua Llanbedr—a Brondeifi. Da y cofiaf y nos Sul gyntaf yr aethom yno. Yr oeddem ychydig funudau yn rhy ddiweddar. Aethom i mewn, er hynny, ac i'r sedd wag gyntaf a welsom. O godi fy llygaid i gael golwg ar fy amgylchoedd, gwelais y dorf yn llygadrythu arnom; a braidd na theimlwn ein bod wedi dod i ryw gysegr-le gwaharddedig. Ni fu hyn, fodd bynnag, ond dros ennyd fer. Trodd y gynulleidfa eu hwynebau tua'r areithfa, a gwnes innau'r un peth. Yno gwelais ddyn cymharol ieuanc, nerthol o gyfansoddiad, lluniaidd o ymddangosiad, yn arwain y gwasanaeth. Y Parch. Rees Cribin Jones ydoedd. A dyna'r tro cyntaf, cyn belled ag y medraf gofio, y gwelais ef; o leiaf, dyna'r tro cyntaf imi wneud sylw arbennig ohono. Yn ystod y ddwy flynedd y bum ar freint-wasanaeth yn y pentref y cyfeiriais ato eisioes, bum yn fynychydd gweddol gyson o'r gwasanaeth hwyrol ym Mrondeifi; a deuthum i adnabyddiaeth agosach o'r gweinidog, yn ogystal ag o nifer luosog o'r gynulleidfa. Daw nifer luosog o'r olaf i'm cof pan ysgrifennaf y llinellau hyn—Dafydd Davies yr Hwper; William Davies, Efailfach; Daniel Jones y gwehydd; Edward Williams, tad Hefin Williams; fe allwn enwi ac enwi, ond i ba ddiben?

Pobl ardderchog oeddynt. Yr oedd cewri bryd hynny—ym Mrondeifi. Ni ddywedaf nad oes cewri yno yn awr; eithr siarad yr wyf am Frondeifi hanner can mlynedd yn ol. Yr oedd Mr. Jones, yr adeg honno, yn ei amser goreu—ar ddechreu ei amser goreu. Deuthum yn edmygydd mawr o hono, a meddyliwn y byd am dano.

Ymhen tua dwy flynedd, ymadewais am feysydd eraill, a chollais olwg arno am dymor. Yn ystod y tymor hwn ganed ynof awydd i fynd i'r weinidogaeth, a chymhyddai yn ei nerth o ddydd i ddydd, nes iddo fy ngorfodi i droi cyfeiriad fy mywyd—pan nad oeddwn ond prin gyrraedd fy ugain oed. Ac o'r adeg honno allan deuthum i adnabyddiaeth agosach, agosach o hono, hyd, wedi imi ddechreu fy ngweinidogaeth yng Nghribin yn yr ail hanner o'r flwyddyn 1886, y deuthum yn gyd-weinidog iddo—yn olynydd iddo (er nad yr agosaf ato) yn yr Eglwys y bu ef yn weinidog arni. Tua'r adeg hon, neu ychydig yn ddiweddarach efallai, daeth i fod rhyngof ag ef gymdeithas agos iawn; a pharhaodd yn ddifwlch hyd derfyn ei yrfa. Oherwydd prinder amser, methwn a chael cymaint o'i gwmni ag a hoffwn. Ond wedi imi gael fy rhyddhau o ofalon yr ysgol, talwn ymweliad aml ag ef, a chaem ymgom ddiddorol, felys. Bu yn y weinidogaeth am tuag wyth mlynedd a deugain. Ac yn ystod y cyfnod hwn, aeth trwy lawer iawn o brofiadau o bobmath. Bu hefyd, yn cadw ysgol—pa hyd, ni fedraf ddweyd yn gywir. A mynych yr adroddai i mi ei brofiad fel athro. Profiad cyfoethog ydyw eiddo athro ysgol. Gwn i hynny'n dda. Daw i gyffyrddiad a llawer math ar feehgyn, a merched hefyd. A gallai pob ysgolfeistr, pe cwyllysiai, ysgrifennu o leiaf un llyfr a ddarllenai fel nofel; gyda'r rhinwedd ychwanegol bod ei gynnwys yn wir, yr hyn na ellir ddweyd am nofel. Adroddai imi aml i stori ddigrif, aml i ddigwyddiad dymunol (ac ambell un annymunol) mewn cysylltiad a'i fywyd fel athro. Palla gofod imi ymhelaethu ar y pen hwn. Mwy diddorol eto na'i brofiad fel athro oedd ei brofiad fel gweinidog. Y mae hwn fel rheol, yn rhy gysegredig i'w ddadlennu ar bapur. Eithr nid allaf ymatal rhag adrodd un digwyddiad a ddwg i'r golau un llinell amlwg iawn yn ei gymeriad, sef, ei ysbryd annibynol, di-dderbyn-wyneb.

Mewn cysylltiad a sefydliad yr achos ym Mrondeifi y digwyddodd yr hyn y cyfeiriaf ato. Rhyngddo ef a'r diweddar Yswain Hughes o'r Castelldu y bu'r ymdrafodaeth. Yr oeddent ill dau ar delerau cyfeillgar iawn a'i gilydd. Un tro cyfarfuasant, ac ynghwrs yr ymddiddan, dywedodd Hughes wrtho—"Beth wyt ti'n peidio cychwyn achos Undodaidd yn Llanbed?" Yr oedd Hughes yn Undodwr ei hun, a mynychai Gapelygroes yn weddol gyson un adeg o'i fywyd. Ychydig amser yn ol bu un o'i ddyddiaduron yn fy llaw, a than y "dydd Sul" ceir aml i nodyn tebig i'r un can-

lynol—" Bum yng Nghapelygroes, ac oddiyno i dc yn Llwyn-ygroes " ; ambell waith cnwa'r pregethwr, gyda sylw (cfallai) am y bregeth. Amryw droion ceir cyfeiriad at Wilym Marles, o'r hwn fel mae'n amlwg, yr oedd yn edmygydd gwresog. Ond—i ddychwelyd at yr ymddiddan ; " Beth wyt ti'n peidio cychwyn achos Undodaidd yn Llanbed ? " " Alla i ddim cael tir i roi'r capel arno, syr." " Cerdd i Frongest, a chymer faint sy'n eisiau arnat." " Beth yw'r telerau ? " Enwodd y pris—swm fechan, er na chofiaf faint yn gywir. " Ond," meddai Mr Hughes ymhellach, " cofia, chei di ddim dysgu hen gatecism yr Eglwys ynddo." " O wel te, cadwch eich tir," oedd yr ateb annisgwyliadwy. " Beth, wyt ti'n bwriadu troi'n Eglwyswr ? " " Na, nid oes ynof un bwriad i wneud hynny ar hyn o bryd. Ond pwy wyr na ddaw adeg pan gyfnewidiaf fi fy marn ac y cyfnewidia'r gynulleidfa ei barn hithau. Yn unrhyw achos, ni chymeraf fy nghaethiwo gan un telerau o'r natur a enwch. Yr wyf am fod yn rhydd." " Wel, wel, cuwch cwd a ffetan, wela i. Cerdd, a gwna fel y mynnot." A gwneud fel y mynnodd a wnaeth. Ar Frongest yr adeiladwyd Brondeifi, ar delerau teg, heb un llyffethair. Hoff iawn ydoedd o adrodd y stori hon, yn hollol anymwybodol ei fod wedi'i hadrodd lawer gwaith o'r blaen.

Yr oedd cryn fesur o'r elfen ddigrifol yn ei natur ; a mwynhai'r digrifol cystal a neb. Mwynhai glywed neu adrodd stori flasus. Hoffai alw i gof ac adrodd rhai o ddigwyddiadau digrifol ei fywyd. Daeth i'w ran gryn lawer o honynt yn ystod ei fywyd. Mwynhai adrodd neu glywed ryw stori ddigrifol am ei gyfeillion. Eithr nid oedd gwenwyn mewn dim a wnai neu a ddywedai. O leiaf, ni chefais i un lle i feddwl yn wahanol am dano.

Peth hawdd iawn a fyddai imi adrodd ystoriau a amlygai, nid yn unig ei ysbryd annibynnol, fel y gwna'r uchod, ond hefyd ei ffyddlondeb i'w argyhoeddiadau gwleidyddol a chrefyddol. Eithr ni chaniata gofod. Braidd y mae eisiau imi ddweyd ei fod yn Undodwr. Gweinidog Undodaidd ydoedd. Yr oedd yn Undodwr argyhoeddiadol. Eithr nid ymhoffai aros gyda'r agwedd nacaol i Undodiaeth. Ni chofiaf imi erioed glywed pregeth o'i eiddo a ellid ei hystyried yn bregeth athrawiaethol. Pwysleisio'r agwedd gadarnhaol, yn hytrach a wnai ef. Fe bregethai ei Undodiaeth gyda'r sicrwydd a dardd o argyhoeddiad. Ei Undodiaeth ef oedd Tadoldeb Duw, Brawdoldeb dyn, iechydwriaeth trwy gymeriad, arweinyddiaeth Iesu, goroesiad a chynnydd bythol yr enaid dynol. Ar y mater olaf—goroesiad yr enaid—ni ddeuai i'w fynwes un awel leiaf o amheuaeth ; yr oedd yn sicr—yn llwyr argyhoeddedig. A ganed y sicrwydd neu'r argyhoeddiad hwn o dristwch mawr iawn. Ie, o dristwch mawr iawn ; dyna'n gywir beth ydoedd.

Arwain i anobaith ac amheuaeth a wna tristwch weithiau. Yn ei achos ef, hollol i'r gwrthwyneb i hyn y bu. O'i dristwch fe aned yn ei galon—yn ei enaid mewnol—deimlad o sicrwydd bod yr un fechan a garai yn fwy na holl drysorau daear yn fyw, a'i bod yn ei ddisgwyl hwnt i'r llen er ail-uno'r gymdeithas a dorrwyd am ennyd. A da y cofiaf, aml i dro, ar ol imi fod yn ei gwmni a gwrando arno'n adrodd ei brofiad, yr ymadawn yn gryfach fy ffydd nad oes marw. Yr oedd profiad y bardd wedi dod yn sylweddoliad iddo : " Gyda'r wawr, o fewn i'r nefol wlad, caf weled gwên anwyliaid ty fy Nhad." Nid " yr wyf yn gobeithio y caf weled," ond " caf weled." Ni chai'r gair gobaith fawr o le yn ei eirfa. Sicrwydd oedd ei air ef, ac nid gobaith. Gobaith yw fy ngair i. Ni allaf anturio dros y ffin i diriogaeth sicrwydd. Ond, lawer gwaith, ar ol bod yn ei gwmni, y dyheais am allu o honof daflu'r gair " gobaith " o'm hol, a dwyn y gair " sicrwydd " i'r lle gwag.

Rhaid imi dynnu fy llith i derfyn. Y mae Rees Cribin Jones yn ei fedd. Na, nid dyna sut y dylaswn ddweyd. Dim ond ei dy o fater sydd yn y bedd. Y mae'r bersonoliaeth a gynrychiolyd gan yr enw Rees Cribin Jones yn fyw—mor fyw (yn fwy byw) nag erioed. Os nad yw, ai nid gwagedd yw'r ewbl? Treuliodd oes hir ar y ddaear. A dydd hir o waith ac o wasanaeth a fu ei ddydd. Ac ni fu ei lafur " yn ofer yn yr Arglwydd."

Cribin. DAVID EVANS.

CLYCHAU'R LLAN.

(EFELYCHIAD).

FE saif y llan ar lechwedd y bryn ;
Ac ar fin yr hwyr pan fo'r byd yn wyn
Fe gân y clychau o'r tŵr fel hyn :
Ding ! Dong ! Ding ! Dong ! Duw Cariad Yw !

Y plant wrth eu chwarae a wrendy'r llef,
A'r gweithwyr a saif ar eu ffordd tua thref,
A dagrau'r galarwyr a sychir o'r nef :
Ding ! Dong ! Ding ! Dong ! Duw Cariad Yw !

Mae ffenestr y llan fel coelcerth y plwy
Goruwch beddau glâs y saint di glwy ;
Ac weithiau breuddwydiaf y clywant hwy :
Ding ! Dong ! Ding ! Dong ! Duw Cariad Yw !

CYNAN.

Apel at Eglwysi Undodaidd Cymraeg Ceredigion a Morgannwg.

AT DDARLLENWYR YR YMOFYNNYDD.

YM Medi 1847 y cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r YMOFYNNYDD, Cylchgrawn Misol newydd, ac erbyn heddiw y mae'n bedwar ugain oed, wedi gweled llawer tro ar fyd ond yn dal yn fyw ac iddo eto ei neges—bod yn ddolen gydiol rhwng Eglwysi Undodaidd Cymraeg Cymru. Yn Ionor 1901 fe gydiodd Cymdeithas Undodaidd Cymru ynddo er iddo fod yn gylchgrawn y Gymdeithas, ac yn ystod ei oes o 80 mlynedd y mae wedi croniclo digwyddiadau'r enwad. Yma y caiff hanesydd y dyfodol ein hanes fel enwad. Ar ei dudalennau y cedwir yn fyw goffa ein hanwyliaid. Dyma gylchlythyr misol y Gymdeithas at yr Eglwysi ac at yr Undodiaid ar wasgar. Erbyn heddiw y mae'n *fis Medi eto* a daw'r her atom "Oni fedrwn ni fel Cymdeithas wneuthur a wnaeth yr hen Olygyddion ar eu cyfrifoldeb eu hunain? A ydyw sel a menter y teidiau gynt gyda ni? Y mae eisiau o leiaf £120 er clirio'r hen ddyled a chredaf y cerddai'r YMOFYNNYDD wedyn yn ei bwysau'i hunan. Ni fedrir osgoi'r ddyled. Rhaid ei thalu pe rhoddesid yr YMOFYNNYDD i fyny yfory. Apwyntiodd y Gymdeithas bwyllgor i ystyried y mater yng Nghyrddau Blynyddol yr enwad ym Mhantydefaid a derbyniodd yn unfrydol awgrym y pwyllgor yng Nghyfarfodydd Chwarter yr enwad yng Nghribin.

Er dileu'r ddyled awgrymodd y Pwyllgor (ac fe'i derbyniwyd gan y Gymdeithas) *rannu'r ddyled rhwng yr Eglwysi fel y canlyn—*

Alltyblaca £6, Aberdar £8, Aberystwyth £3, Capel y Bryn £7, Bwlchyfadfa £6, Brondeifi £10, Cefncoed £5, Capelycwm £3, Caeronnen £3, Capelygroes £7, Cribin £6, Ciliau £3, Capel y Graig Llandysul £10, Llwynrhydowen £7, Pantydefaid £10, Rhydygwin £6, Y Graig Trebanos £10.

Apelir yn garedig at bob eglwys am iddi dalu'i *quota* o hyn i ddiwedd y flwyddyn er cadw YR YMOFYNNYDD *yn fyw* ac er rhoddi chwareu teg iddo i draethu'i neges yn hy a didderbyn-wyneb. Bydded Medi 1927—pedwar ugain mlynedd wedi'i gychwyn yn ddydd ei *ail-eni* o'i ddyled ac i fwy o wasanaeth a defnyddioldeb nag erioed o'r blaen.

Yr eiddoch yn bur,

Dros y Gymdeithas a thros YR YMOFYNNYDD,

T. OSWALD WILLIAMS,

(*Golygydd*).

Y Pwyllgor Blynyddol.

CYNHALIWYD hwn yng Nghribyn fore Mercher, Awst 17, pryd yr oedd nifer fawr o gynrychiolwyr yn bresennol. Cymerwyd y gadair gan y Llywydd — Mr. D. Tyssul Davies, Aberdar. Cyn dechreu ar waith y Pwyllgor cyfeiriodd y Llywydd mewn geiriau gwresog a thyner at farwolaeth y diweddar Barch. R. C. Jones, Llanbedr. Atgofiodd y cyfarfod o lafur ac ymroddiad Mr. Jones yn ystod ei yrfa faith a chynhygiodd ein bod yn datgan ein gwerthfawrogiad o'r llafur hwnw ac yn cyflwyno ein cydymdeimlad llwyraf i'w weddw a'i fab Mr. W. S. Jones, M.A., Aberystwyth. Ategwyd ei gynhygiad drwy i bawb sefyll ar eu traed am ennyd. [Y mae cydymdeimlad yn werthfawr, a da gennyf i'r Gymdeithas ddangos ei gwerthfawrogiad o lafur R. C. Jones, ond medrai estyn ei chydymdeimlad i gylch eangach.—*Gol.*]

Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion Pwyllgor y Pasc. Rhoddodd y Trysorydd adroddiad o safle ariannol y Gymdeithas.

Yn anffodus dipyn o chwith yw'r safle a hynny'n bennaf am fod "YR YMOFYNNYDD" wedi methu talu drosto ei hun yn ystod y blynyddoedd pan oedd y draul o argraffu'n uchel. Cafwyd ar ddeall fod eisiau tua £105 er gosod y Gymdeithas ar dir diogel. Dyna newydd gwael ond i leddfu tipyn arno rhoddwyd ar ddeall hefyd ond cael y swm yna nad oedd yn debygol yr ae i ddyled yn fuan eto.

Pasiwyd ein bod yn gofyn i'r oll o'r Eglwysi i gasglu cyfran benodedig tuag at ddileu y ddyled hon (gorffwys y gwaith o osod y mater hwn gerbron yr Eglwysi gyda Golygydd YR YMOFYNNYDD)

Pasiwyd y *Grants* canlynol: £5 i Gapelycwm, £5 i Panteg, £7/10/0 i Barcyvelved, £1/1/0 i'r B. and F.U.A., £1/1/0 i'r National Conference.

Trysorfa'r Mufyrwyr.—Cafwyd ar ddeall fod Eglwysi Ceredigion wedi casglu yn agos i £70 tuag at hon. Saif y symiau fel y canlyn: Ciliau £3/9/2, Rhydygwin £2/10/6, Capelycwm £2/2/6, Pantdefaid £4/6/0, Caeronnen £1/17/0, Brondeifi £5/18/0, Llwynrhydowen £7/8/6, Craig Llandysul £17/13/0, Capelygroes £6/3/9, Cribyn £4/4/0, Alltyblaca £4/14/6, Capelybryn £4/12/6, Bwlchyfadfa £4/12/6.

Erbyn y daw casgliadau Eglwysi Morgannwg a chyfran Mr. Josiah Jones (un ran o ddeuddeg o'r cyfanswm a gesglir) i law credwn y saif y gronfa tua £100. Pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r Ysgrifennydd am ymweled a'r Eglwysi a chasglu

Ngheredigion. Pasiwyd ein bod yn rhoddi pob cefnogaeth i Mri. Tom J. Jones, Llanbedr a Dewi J. Jones, Llwynrhydowen i baratoi eu hunain i'r weinidogaeth. Y flwyddyn nesaf bydd y blaenaf yng Ngholeg Caerfyrddin a'r olaf mewn Ysgol rag-baratoawl.

Gadawyd y mater o benderfynu pa gynorthwy ariannol i'w roi iddynt i Is-Bwyllgor yn cael ei wneud i fyny o swyddogion y Gymdeithas : Y Prifathro Davies, Mri. W. S. Jones, M.A., Josiah R. Jones, a Chledlyn Davies. Cyfarfu hwn yn ystod y dydd.

Y Llyfr Emynau.—Cafwyd adroddiad calonogol iawn ynglyn a hwn, a lle i gredu y bydd allan o'r wasg cyn diwedd y flwyddyn. Pasiwyd y penderfyniadau canlynol ynglyn ag ef. (1) Mai ei enw fydd "Perlau Moliant." (2) Ei bris 5/- y copi yn y ddau Nodiant. (3) Fod apel yn cael ei wneud at yr Eglwysi ar iddynt benderfynu'n fuan faint o gopiau fydd yn eisiau arnynt ac i wneud yr *order* mor fawr ag sydd bosibl. (4) Fod y cyfrifoldeb o werthu y llyfr yn llaw yr argraffwyr Meistri J. D. Lewis, Llandysul.

Cynhygiwyd gan Mrs. Davies, priod y Prifathro Davies, ein bod yn apelio at ganghennau Cymdeithas y Benywod yn ein heglwysi am eu cynhorthwy gyda'r mudiad i ffurfio y gronfa o £3000 er cynorthwyo myfyrwyr. Derbyniwyd y cynhygiad gyda brwdfrydedd a threfnwyd cyfarfod arbennig i'r boneddigesau y prynhawn hwnnw i ymdrin a'r mater.

Derbyniwyd yn ddiolchgar wahoddiad i gynnal Cyfarfodydd yr Hydref yng Nghefncoed-Cymer. Cynhelir hwy Llun a Mawrth Hydref 17 a 18.

Ail etholwyd yr oll o Swyddogion y Gymdeithas.

Yn olaf fod rhaglen (*agenda*) pob pwyllgor ynglyn a'r cyrddau i'w danfon i'r Eglwysi o leiaf ddau Sul cyn eu cynhelir.

NODIAD Y GOLYGYDD.

Y MAE'N flin gennyf na ddaeth hanes y Cyrddau Blynyddol i'm llaw, ac nid oeddwn yn bresennol ond yr oedd yn dda gennyf gael gair da iddynt gan bawb. Cefais gip ar Araith y Llywydd a sier fod "Tyssul" wedi cymryd y wrong turning pan beidiodd a bod yn bregethwr. Y mae'n un o'n lleygwyr mwyaf hyawdl a'i gydymdeimlad gyda *Chrefydd* a phethau crefydd.

Gobeithio y caiff adferiad iechyd er iddo goroni ei ail flwyddyn drwy sylweddoli ei freuddwyd o gasglu'r Tair Mil or diogelu gweinidogaeth yr enwad yng Nghymru.

Priodasau.

Yn y Graig, Mehefin 23, o flaen y Cofrestrydd Mr. Noah L. Davies, Pontardawe a'r Parch. D. G. Rees, Trebanos, priodwyd Mr. Richard Lewis, Vardre, Clydach a Miss Elizabeth Thomas, Heol-y-Graig, Trebanos.

Yng Nghapel Undodiaid, Abertawe, dydd Mercher, Awst 10, o flaen y Cofrestrydd, a'r Parch. D. G. Rees, Trebanos, priodwyd Mr. S. W. Hicks, B.A., Glanaman a Miss Margaret E. John, Glyncoch, Clydach.

Yng Ngellionnen, dydd Sadwrn, Awst 13, o flaen y Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, Pontardawe a'r Gweinidog y Parch. D. G. Rees, priodwyd Mr. Bowen Bevan, Ynysmudw a Miss E. A. Morgan, Trebanos.

Awst 24, yng Nghapel Brondeifi, gan y Gweinidog ym mhresenoldeb y Cofrestrydd unwyd mewn glan briodasThomas James Leslie Phillips, Fitter, Caerfyrddin a "Sibyl" Williams, Greenfield Terrace, Llanbedr. Hir oes a phob dedwyddyd iddynt.

Marwgofion.

Gorffennaf 25, yn 53 mlwydd oed bu farw yn ddisymwth ar yr heol Daniel Thomas, 16, Fenwick Street, Pontygwaith, Tylorstown,ond cyn hynny o Gwmsychbant, Llanybyther. Dyn tawel a charedig oedd "Dan" a bydd yn chwith gan gylch eang ei gydnabod yng Ngheredigion ddeall am ei farw. Claddwyd y dydd Sadwrn canlynol yng nghladdfa Gyhoeddus Penrhys. Gwasanaethwyd yn absenoldeb y Parch. E. R. Dennis gan y Parch. Bryn Thomas, Ferndale. Gadawodd weddw a mab a pherthynasau eraill mewn galar o'i golli.

"Angau, angau, beth dal gwingo?
Ti wyt ben ar fryn a bro;
Daethost heibio i'r teulu yma
Fel concwerwr ar dy dro:
Ni arbedi ddim o'th ergyd—
Taro ienctid hardd eu gwedd—
Rhaid i bob oed fynd i'r graean
Rhaid i'r baban fynd i'r bedd."

Awst 2, yn 66 mlwydd oed, o'r *pneumonia* wedi rhyw wythnos o gystudd caled bu farw Lewis D. Jones, 1, Glandulas Terrace, Llanbedr, ysgrifennydd a blaenor eglwys Brondeifi, ac ni wyddom ni eto am ein colled. Yr oedd Mr. Jones yn Undodwr goleuedig ac egwyddorol ac yn medru rhoddi rheswm am y ffydd a oedd ynddo. Yn ystod deuddeg mlynedd fy ngweinidogaeth fe'i cefais ar bob adeg yn gyfaill cywir ac yn ffrynd calon. Yr oedd yn foddlon gwneuthur ei oreu dros Brondeifi oherwydd yr oedd ei fynwent yn gysegredig iawn iddo. Bu am flynyddoedd lawer yn aelod gweithgar o'r Cyngor Tref ac yn *Faer* tref Llanbedr. Credaf y medraf adrodd un gyfrinach bellach. Ni chwenychai'r anrhydedd o fod yn Faer y dref, ond pan y soniais wrtho nad oedd Undodwr erioed wedi'i ethol yn Faer y dref, fe'i derbyniodd ond gyda'r geiriau hyn, "*Er mwyn Brondeifi cofiwch*," a chredaf y dysg y dref maes o law i ddiolch iddo am a wnaeth yn ystod blwyddyn ei swydd. Ar wahan i hyn *gwehydd* oedd Lewis Jones, ie, pen crefftwr ac fe wyr y neb a welodd ei waith ba fath grefftwr oedd. Fe dry rhai ohonoch ryw bryd neu gilydd i'r *Museum* i Gaerdydd ac fe welwch wely wedi ei daenu yno. Aroswch ennyd a chofiwch mai Lewis Jones a weodd y dillad gwely. Ychydig flynyddoedd yn ol enillodd y wobr

flaenaf yn Eisteddfod Genedlaethol am *batrwm* o garped stâr, a phan ymwelodd Tywysog Cymru ag Arddangosfa Diwydiannau Cymreig hoffodd a phrynodd *gwilt* a wewyd yn Llanbedr. Yn Adroddiad Prifysgol Cymru ar ffatriau Cymru fe geir llun a gair caredig am ein cyfaill ymadawedig Y mae'r *wennol* yn llonydd. Y mae'r dafod barod yn fud a'r galon garedig wedi peidio. Y mae'r aelwyd yn wâg a'r eglwys wedi'i bylchu am nad yw efe mwy. Daearwyd ei weddillion y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Brondeifi, yr angladd yn anghyoedd a gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd weddw, dwy ferch ac un chwaer mewn hiraeth calon o'i golli. Boed nodded y nef drostynt.

Ar y 4 o Awst, yn 75 oed, bu farw Hannah, annwyl briod David Lewis, Maeshedydd, plwyf Llanwenog. Yn y Cnapsych o'r un plwyf y treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd priodasol; ond ychydig flynyddoedd yn ol ymneilltuodd hi a'i phriod i dreulio'u diwedydd yn y lle uchod. Ni fu iddi iechyd cryf er's cryn amser; ond byr a fu ei chystudd olaf. Hoffid hi fel benyw o rodiad cywir, o ysbryd tangnefeddus, ac fel cymdoges fwyn a charedig. Gadawodd mewn hiraeth ar ei hol briod, un mab, dwy ferch, nifer o wyrion a pherthynasau eraill. Claddwyd ei gweddillion dydd Llun canlynol, a daeth tyrfa luosog ynghyd fel arwydd o barch iddi. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, a chymrwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. T. A. Thomas a Glyn Edwards.

Awst 11, yn 86 mlwydd oed bu farw Rees Cribin Jones, sefydlydd a gweinidog cyntaf Brondeifi, wedi ychydig ddyddiau o gystudd. Nid oes angen dywedyd nemor ddim yma am yr hen dad ond yn ei farw ef fe gaiff eglwys Brondeifi orffennol. Rhyw fyw yn y presennol yr oeddem ac yntau gyda ni. Nid felly mwy. Fe geir cofnodion am ei fywyd mewn man arall. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent eglwys Brondeifi, yr angladd yn anghyoedd a gwasanaethwyd gan y Gweinidog Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Daniel Jones a David Evans, Cribin. Gadawodd weddw, un mab (Watkin S. Jones, Ysw., M.A., M.Sc., Aberystwyth) a pherthynasau eraill yn eu galar ac y mae Eglwysi Caeronnen a Brondeifi yn eu *du* o golli un a fu'n eu gwasanaethu mor ffyddlon am gynifer o flynyddoedd.

Awst 12, yn naw mis oed bu farw Mary Jane, geneth fechan Mr. a Mrs. Evans, Gwastod, Parcyrhos, Pencarreg, wedi deuddydd neu dri o gystudd. Mor annwyl oedd y fechan mor fyw ac mor brydferth, ond y wedi mynd a ninnau'n gofyn, "a anghofia mam ei phlentyn sugno?" Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent eglwys Brondeifi, y Parchn. T. O. Williams, M.A., a Daniel Jones yn gwasanaethu. Gadawodd dad a mam, brawd a chwaer fach a pherthynasau eraill mewn galar o golli'r blodeuyn gwan. Cysur y nef a fo iddynt yn nydd yr ystorm.

Awst 18, yn 82 mlwydd oed, wedi cystudd byr yn y diwedd, bu farw John Williams, Cigydd, 55, High Street, Ferndale, neu fel y'i hadwaenid yn ei ardal John Williams, Gwarnant, Llanwenog. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth ym more oes ond treuliodd ddeugain mlynedd fel cigydd yn Ferndale. Undodwr ydoedd i'r diwedd a bu'n ffyddlon tra cynhelid gwasanaeth Undodaidd yn Nhylorstown. Yr oedd wedi'i freintio a chyfansoddiad cadarn ac a chof da a doe digwyddiadau'r dyddiau gynt yn fyw i'w gof i'r diwedd. Claddwyd y dydd Llun dilynol yng nghladdfa gyhoeddus Maerdy. Gwasanaethwyd gan y Parch. Bryn Thomas (A), Ferndale, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Oswald Harries, Trerhondda. Gadawodd weddw, un mab, a pherthynasau eraill yn unig.

Nodion yr Eglwysi.

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.—Cynhaliwyd yng Nghribin dyddiau Mawrth a Mercher, yr 16 a'r 17 o Awst. Bu trefn y cyfarfodydd fel y canlyn : Pwyllgor y Llyfr Emynau dydd Mawrth am 4 ; gwasanaeth a dwy bregeth nos Fawrth—arweiniwyd y gwasanaeth gan Mr. Tom Jones (Myfyriwr), Llanbedr, a phregethwyd gan y Parchn. T. Arthur Thomas a D. G. Rees. Bore Mercher am 10, Pwyllgor y Gymdeithas. Rhoddir manylion o'r hyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd. Prynhawn Mercher arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Glyn Edwards, Cwrtnewydd ; yna traddododd y Llywydd (Mr. D. Tyssul Davies, Aberdar) ei anerchiad. Ar ei ol pregethodd y Parch. J. Park Davies, M.A., B.D., Prifathro Coleg Caerfyrddin. Dyma'r tro cyntaf i Mr. Davies ymweled a'n cyrddau wedi ei benodiad i'r swydd o Brifathro, a da oedd gan bawb ei weld. Yn yr hwyr arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. W. Phillips, Tynygwndwn, a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, Aberdar, a Dr. Griffiths, Aberystwyth. Caed hin ddymunol, cynulliadau lluosog, a phregethau nerthol.

BWLCHYFADFA—Cafodd aelodau cynulleidfa a deiliaid Ysgol Sul y lle hwn wledd odidog iawn nawn dydd Mawrth, Awst 23. Bu i lawer o bethau helpu i wneud y prynhawn yn un llawen. Cafwyd hin ddymunol ar ganol tywydd gwlyb. Yr oedd yn brynhawn tesog, hyfryd a thrwy hynny galluogwyd ni i dreulio rhai oriau mewn cae perthynol i Mr. D. Jones, Tynewydd i weld y plant yn rhedeg a chwarcu. Yr oedd llawer o ymwelwyr yn yr ardal a chawsom hefyd gwmni y Parch. Mr. Davies, Ficer, Talgarreg, a Mrs. Davies. Yr oedd y pethau ar y byrddau o'r fath orau a'r amrywiaeth mewn teisenau yn fawr. Rhoddwyd y Te gan Miss Evans, Y Farm, Talgarreg ; Misses Thomas, Green Grove ; Mrs. Griffiths, Pantcoch Shop a'r teulu a Miss Maggie Crabb, Castellhywel Smithy. Teimlwn yn ddiolchgar iawn iddynt am eu caredigrwydd. Y Te a'r chwareu drosodd cafwyd rhaglen fer ond blasus iawn o adrodd, canu a siarad—y plant yn gwneud yr adrodd a'r canu a Mri .T. G. Thomas, E. Lloyd Jones, Pantybryn—arolygwr yr Ysgol Sul, a Evan Davies, Llaindelyn yn gwneud y siarad.

GRAIG, TREBANOS.—Dydd Iau Awst y 25ain aeth parti o bererinion, sef y chwiorydd yn nosbarth Ysgol Sul Mr. Lewis Morgan, a'r brodyr y buont yn ddigon caredig i'w gwahodd i fod yn rhan o'r bererindodaeth, i ymweled a chartref, ac a mangre claddu Iolo Morgannwg. Gan fod bugail yr eglwys yn fwy cynefin a'r ardal na neb fe ddichon o'r pererinion ereill, dewiswyd ef yn arweinydd a chyfaill ac athronydd y daith. Yr oedd nifer y parti yn chwech ar hugain, ac mewn modur mawr yr aethpwyd. Trwy Aberogwr, a Southerndown, a thrwy ran o Santa Brudd (St. Brides Major) i'r Wig. Cafwyd yr agoriad i weled yr hen gapel yno. Rhoddwyd byr hanes o gychwyniad yr achos yn niwedd y ddeunawfed ganrif fel eglwys Galfinaidd fedyddiol, hyd nes iddi tan y Parchedigion Evan Lloyd a'i fab Titus Lloyd, gofleidio athrawiaethau Undodaidd. Dilynwyd yr arfordir oddiyno i dref hynafol Llanilltyd Fawr. Yno y talwyd ymweliad a gorweddfan Peggy Williams, merch Iolo Morgannwg. Da oedd gennym weled fod disgynyddion Iolo erbyn hyn wedi gosod ei bedd yn drefnus a glân. Yn sicr y mae Peggy yr hon a fu yn gwylio wrth groes ei thad yn ei henaint a'i fethiant corfforol, yn deilwng o hyn. Gwelwyd carreg fedd Mathew Voss, yr hwn a fu farw yng nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg, yn 129 oed. Hefyd Croes Samson, o'r seithfed ganrif, yr hon a adferwyd trwy ddwylaw Iolo. Y mae yno lawer o hen gofgolofnau ereill o'r oesoedd bore o'r grefydd Gristionogol ym Mhrydain, yr hyn sydd yn gwneyd Llanilltyd Fawr yr ardal fwyaf hanesyddol yng Nghymru. A

ni yn cael lluniaeth yn y lle hwn, sylwasom ar ddyn dall tua thri ugain oed, yn eistedd wrth fwrdd arall, a chanddo wr a gwraig cymharol ifanc fel cwmni. Ac yr oedd y wraig yn ei alw yn "Wncl John." Ac ar ol ymgomio tipyn a'r gwr dall cawsom ei fod yn wyr i'r enwog Thomas Williams, o Bethesda'r Fro. Un a roddir gan y beirniaid ym mhlith emynwyr goreu Cymru. Y mae yn y "Caniedydd Newydd" gynifer a 19 o emynau Thomas Williams. Y mwyaf adnabyddus ohonynt fe ddichon yw y rhai sydd yn dechreu "O'th flaen o Dduw rwy'n dyfod, Gan sefyll o hirbell;" a "Dwy aden colomen pe cawn, Mi hedwn a chrwydrwn ym mhell." Dywedwyd hefyd wrthom mai yn Nhrefflemin yr oedd Thomas Williams yn byw am y rhan olaf ei oes, lle y bu farw yn y flwyddyn 1844, yn 88 oed, ddeunaw mlynedd ar ol marw Iolo. Mawr oedd siom y pererinion pan gyrhaeddwyd Trefflemin o gael ar ddeall fod rheithor y plwyf wedi mynd gyda'r Ysgol Sul i ynys Barri, ac felly fod y anmhosibl cael yr agoriad i gael myned i mewn i'r eglwys. Ac felly ni chafwyd ond cipdrem ar gofadail Iolo ar fur mewnol yr eglwys trwy'r ffenestr. Gwelwyd y fan lle y safai ei gartref, y mae yno res o dwlce moch yn bresennol; a darn o hen fagwyren, yr oll sydd yn aros o dy Thomas Williams o Fethesda'r Fro. Llifai y Dawon heibio i hen gartref Iolo o hyd, at yr hon y cyfeiriai Gwallter Mechain yn ei pherthynas a'r hen fardd o Forgannwg:

"O Dawon afon yfai,
Ac yn ei nerth canu wnai."

Y lle nesaf i ddod tan sylw y pererinion oedd Pontyfon, neu y Bontfaen fel y mae yn cael ei galw yn gyffredin yn yr ardal. Ond wfft i'r Bontfaen, y mae wedi mynd yn Seisnigaidd hollol. Gwelwyd y daflen osodwyd ar fur ty yno yn ddiweddar gan Gymrodorion Dwyrain Morgannwg, ond nid oes dy yn y Bontfaen yn llai tebyg o fod wedi ei gyfaneddu gan Iolo. Sylwasom ar y daflen fod dyddiad ei farw yn gywir ond y mae blwyddyn ei eni yn cael ei rhoddi fel 1747. Gan fod Iolo yn un o'i lythyrau olaf yn son am dano ei hun fel yn ei "Eighty-first year" ac yntau yn marw ym Rhagfyr 1826, y mae y flwyddyn ar y daflen yn sicr o fod un flwyddyn yn rhy ddiweddar. Dychwelwyd trwy Benbont-ar-Ogwr, lle cafwyd hanner awr i weled yr hen gapel yno. Y mae hwn oddiar pan gafodd ei adnewyddu yn gyfangwbl y tu fewn yn y flwyddyn 1910, yn un o'r capeli harddaf a mwyaf eyfleus yn y dref. Gresyn na ellir cael gweinidog mwy parhaol. Y mae y dref hon yn ganolbwynt pwysig, mewn ardal brydferth a phoblog, ond prinder ac ansicrwydd bara a chaws i'r bugeiliaid sydd yn gwneud y gwaith, er mor addawol, yn anodd. Cafwyd un o'r diwrnodau mwyaf teg a heulog y flwyddyn ac yr oedd golygfeydd Bro Morgannwg, "Gardd Cymru" yn ogoneddus. Cyrhaeddwyd Trebanos erbyn wyth o'r gloch, a'r gyrrwr ym methu deall beth wnai ar rhan oedd heb ei dreulio o'r dydd. "Oblegid," ebe fe, "y mae cyrraedd adref erbyn deg o'r gloch yn gynnar iawn i ni." Ac felly terfynnodd y peth agosaf ag y gwyr un o'r pererinion, o leiaf, i fod yn "Ddiwrnod Perffaith."

D.G.R.

RHODD WERTHFAWR.—Dywedodd y gweinidog wrth ei gynulleidfa ym Mhantdefaid yn ddiweddar ei fod wedi prynu y chwech erw sydd yn ffinio a'r fynwent a'r capel am £320. A dywedodd ym mhellach fod dau gyfeill iddo, ond na ddymunent roddi eu henwau, wedi rhoddi iddo gant a hanner yr un er ei brynu a'i gyflwyno i'r gynulleidfa am byth. Wedi hynny y mae cyfaill, anadnabyddus eto, wedi talu y gweddill, a chyflwynir yr oll i ymddiriedolwyr y capel i'w ddefnyddio fel y gwelont yn oreu. Ar yr un Sul pasiwyd yn wresog iawn bleidlais o ddiolchgarweh i'r cyfeillion caredig hyn am eu rhodd werthfawr. Pasiwyd hefyd bleidlais gyffelyb i berchenogion y tir am eu bod wedi ei werthu yn breifat i'r eglwys.

CANMLWYDDIANT DAFIS CASTELLHYWEL.

(1745—1825).

— CYNHELIR —

: Cwrdd :
Coffa Dafis Castellhywel

— Yn HEN GAPEL Y LLWYN —

SADWRN, MEDI 24, 1927 am 2 o'r gloch.

CADEIRYDD—

Yr Henadur WILLIAM GEORGE, Cricieth
(Llywydd y Cymdeithasau Cymraeg).

HANES EI FYWYD :—Dan Jenkins, Ysw., Pentrefelin.
DAFIS FEL ATHRO :—Y Prifardd Cledlyn.
DAFIS FEL BARDD A CHYFIEITHYDD :—Y Prifardd Sarnicol.
CYFOESWYR DAFIS A'I GYFNOD :—G. J. Williams, Ysw., M.A., Coleg Caerdydd.
DAFIS YN EI BERTHYNAS A CHREFYDD EI OES :—Golygydd Yr Ymofynnydd.

Ymwelir yn ystod y prynhawn a Chastellhywel—Cartref Dafis, a hefyd a'r hen dderwen ger efail y gof, lle'i ordeiniwyd.

Bwriedir i Rifyn Hydref o'r YMOFYNNYDD fod yn Rhifyn Coffa (Rhifyn Dwbl tebig i Rifyn Coffa Iolo Morgannwg) pan geisir dwyn y gweinidog a'r ysgolfeistr, y dyngarwr, bardd a chyfieithydd o'r newydd o flaen yr oes bresennol. . . . . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd Chwarter yr Hydref

Yng NGHAPEL CEFNCOED Y CYMER,

Hwyr LLUN a Dydd MAWRTH, HYDREF 17 a 18

Y gwasanaethau fel arfer a chroeso i bawb.

E. O. JENKINS, (Ysgrifennydd).

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn. "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF SUMMER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1900 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.